Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

Ionawr 29ain, 2021

Annwyl riant / warcheidwad,

Mae'n anodd credu ein bod ni'n tynnu at ddiwedd mis Ionawr a bod 4 wythnos o'r tymor wedi diflannu'n barod. Mae'r ysgol yn annifyr o dawel heb ddisgyblion ac rydym oll yn edrych ymlaen at y diwrnod pan fyddwn yn medru gwahodd disgyblion yn ôl i'r safle yn ddiogel. Mae'r datganiad diweddaraf gan Lywodraeth Cymru heddiw yn cadarnhau bod y cyfnod clo yn cael ei ymestyn am 3 wythnos arall ac os yw'r amodau yn gywir bydd disgyblion iau ysgolion cynradd yn dychwelyd i'w ysgolion ar ôl gwyliau hanner tymor Chwefror.

Ymwelwyd â themâu pwysig yn ein gwasanaethau'r wythnos yma. Mae'r holl wasanaethau ar gael ar safle Moodle yr ysgol ac anogir disgyblion i wrando ar y gwasanaethau pan fo cyfnod rhydd ganddyn nhw. Roedd gwasanaeth dydd Llun ar thema Santes Dwynwen ac yn ffordd i'n hatgoffa ein bod yn ysgol Gymraeg sydd yn dathlu hanes, diwylliant a thraddodiadau Cymreig yn rheolaidd. Roedd yr ail wasanaeth, ar ddydd Mercher, yn cofio'r Holocost. Neges y cofiant rhyngwladol eleni oedd 'Byddwch yn oleuni', sydd yn neges amserol iawn yn ystod y cyfnod tywyll hwn.

Fe gefais gyfle yn ystod yr wythnos i wrando ar ddarlith flynyddol y Cyngor Gweithlu Addysg Cenedlaethol gan yr Athro Pasi Sahlberg o'r Ffindir. Thema ei ddarlith oedd dylanwad yr oes ddigidol ar fywydau pobl ifanc. Rhannodd ystadegau ei waith ymchwil yng Nghanada ac Awstralia, oedd yn dangos yn glir gydberthyniad rhwng yr amser a dreulir ar-lein a lles ac iechyd pobl ifanc. Nid yn annisgwyl, mae'r canlyniadau rhyngwladol yn frawychus ac yn atgyfnerthu ein hofnau bod pobl ifanc yn treulio gormod o amser o flaen sgrin a bod hyn yn medru cael effaith niweidiol ar eu hiechyd a'u lles yn gyffredinol: "Mae defnyddwyr uchel yn dangos llai o chwilfrydedd, hunanreolaeth a sefydlogrwydd emosiynol."

Awgrymodd yr Athro Sahlberg y dylem ni, fel addysgwyr a rhieni, helpu plant i hunanreoli eu defnydd o ddyfeisiau digidol ac i ddod o hyd i gydbwysedd iach o ran byw gyda nhw a hebddyn nhw. Bydd gwasanaeth yr wythnos nesaf yn ffocysu ar y pryderon hyn yn benodol, a hithau'n wythnos iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Mae ein trefniant ers cychwyn y cyfnod clo diweddaraf, lle nad yw pob gwers ar amserlen disgyblion CA3 a Blwyddyn 10 yn wersi 'byw', yn un cam bach i'r cyfeiriad cywir wrth ymateb i'r pryder hwn. Fe fyddai'n atgoffa'r athrawon bod angen i ni osgoi cynnal pob gwers Blwyddyn 11 yn wers 'fyw' er mwyn rhoi cyfle i'r disgyblion gwblhau tasgau yn ystod y dydd.

Wythnos nesaf mae'n wythnos Iechyd Meddwl Plant ac fe fyddwn yn cynnal gwasanaeth arbennig yn benodol ar Iechyd Meddwl a sicrhau ein bod yn cyfyngu ein amser ar y sgrin mewn cyfnod clo. Byddwn yn cynnig technegau a thasgau i gefnogi lles emosiynol eich plentyn mewn cyfnod o glo drwy gydol yr wythnos. Bydd rhywbeth at ddant pawb gobeithio a llawer o ddisgyblion a staff yn rhannu profiadau eu hunain am yr hyn sydd wedi ei helpu yn ystod yr wythnosau diwethaf. I sicrhau fod pawb yn cael amser oddi wrth y sgrin am gyfnod, byddwn yn annog ein staff a disgyblion i adael y cyfrifiadur brynhawn dydd Gwener nesaf a threulio amser yn mynd am dro, gwneud gweithgaredd ymarfer corff neu feddwlgarwch, a chymryd amser i ofalu am eu hunain.

Rydym yn awyddus i barhau i werthuso ein darpariaeth dysgu o hirbell wrth wrando ar lais disgyblion, staff a rhieni, gan fod yn barod i addasu ein gweithdrefnau er mwyn diogelu lles ein disgyblion a'n staff. Mae yna gyswllt isod

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

drwy agor y hyperddolen i holiadur byr i rieni, a gofynnir yn garedig i chi dreulio ychydig funudau yn ei gwblhau. Diolch.

https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=kWKY0wlzXkmkhF_27zTGWVATjLmACNhEpRzO2VJtcotUOTdYNlJTODcyTEFNVVBMQTNCNklyUlBMMi4u

Byddwn yn adeiladu cyfnodau ffurfiol i mewn i'r amserlen o'r wythnos nesaf ymlaen pan fydd y Tiwtor Personol yn cael amser i gyfarfod gydag aelodau'r dosbarth am sesiwn 'dal i fyny' a lles. Bydd y sesiwn gyntaf yn cychwyn fore dydd Gwener nesaf a byddwn yn creu dau gyfnod yr wythnos ganlynol, sef bore Llun a Gwener.

Mae copi o'r amserlen ar gyfer yr wythnos nesaf ar gael ar ffurf atodiad i ddisgyblion CA3 a Blwyddyn 10.

Os na fydd darpariaeth 'fyw' ar gyfer gwers benodol, fe fydd hynny o ganlyniad i salwch athro neu amgylchiadau eithriadol, neu oherwydd bod athro ar ddyletswydd yn yr hwb yn yr ysgol. Gwneir pob ymdrech i ddarparu gwaith ar Teams neu Moodle os na fydd hi'n bosib cynnig gwers 'fyw'.

Mae Pwnc+ ar Moodle yn llyfrgell o adnoddau pynciol ychwanegol sydd ar gael i ddisgyblion sy'n cwblhau pob tasg ac yn dymuno ymestyn eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o'r pwnc a'u diddordeb ynddo. Mae Pwnc+ ar Moodle yn agored i ddysgwyr a rhieni wrth ddefnyddio enw defnyddiwr a chyfrinair arferol Moodle / Edulink. (Mae mynediad i westeion ar gael hefyd, heb orfod mewngofnodi).

Os ydych yn chwilio am adnoddau addysgiadol ychwanegol i'ch plentyn, cofiwch am wasanaeth newydd S4C. Mae 80 awr o raglenni yn cael eu darparu ar blatfform addysg Hwb Llywodraeth Cymru, a chaiff pecynnau BBC Bitesize eu darlledu ar S4C. Bydd cynnwys addas hyd at Safon Uwch ar gael. Mae gan y BBC wasanaeth addysgiadol tebyg. Mae Hwb yn wefan sydd yn cynnwys adnoddau ac offer addysgiadol rhad ac am ddim i athrawon a disgyblion yng Nghymru. Mae gan eich plentyn fanylion cofrestru ar gyfer Hwb er mwyn cael mynediad i'r adnoddau. Cysylltwch â'r swyddfa os yw eich plentyn wedi anghofio'r manylion cofrestru.

Mae'n hanfodol bwysig fod ein plant yn cael cyfleoedd i wneud ymarfer corff yn ystod yr wythnos, yn enwedig am eu bod yn gweithio wrth ddesg ac o flaen sgrin am ran helaeth o'r dydd. Mae'r adran Addysg Gorfforol yn darparu gweithgareddau fel rhan o'r amserlen ddysgu, ond mae angen mwy na hynny ar blentyn yn ystod cyfnod mor segur. Anogwch eich plentyn i wneud rhywfaint o ymarfer corff naill ai yn ystod amser cinio neu ar ôl 15:00 mor aml â phosib.

Darpariaeth Lles: Yn ogystal â'n darpariaeth academaidd, rydym hefyd yn cynnig gwasanaeth bugeiliol a lles cynhwysfawr sy'n cynnwys:

- E-byst a negeseuon wythnosol gan y Tiwtor Personol / Pennaeth Blwyddyn / Tîm Arwain i bob blwyddyn.
- Gwasanaethau a myfyrdodau wythnosol ar safle Moodle yr ysgol; ewch i safle'r Cyfnod Allweddol perthnasol.
- Sesiwn Llais y Dysgwr reolaidd gyda'r disgyblion hŷn.
- Grwpiau targed ymhob blwyddyn yn cael dod i'r ysgol drwy wahoddiad i dderbyn cefnogaeth gan y tîm Cynnydd a Lles.

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

- Gwirio presenoldeb dyddiol a galwadau ffôn adref os oes pryder am bresenoldeb disgybl.
- Swyddog Teulu yn ymweld â chartrefi os nad oes modd cael cyswllt gydag ambell deulu.
- System i sicrhau bod gan bob plentyn yr offer i gael mynediad i'r dysgu ar-lein.
- Gwersi lles i Flynyddoedd 7 a 8 yn parhau, a gweithgareddau lles i ddisgyblion eraill yn cael eu datblygu.

Rhieni Blwyddyn 12: Cofiwch am y noson rieni ar ddydd Iau, Chwefror 4ydd. Mae'r manylion wedi eu hanfon atoch drwy lythyr gan Mr James, Pennaeth y Chweched Dosbarth.

Cadwch yn ddiogel yn ystod y cyfnod anodd hwn a chofiwch gysylltu os oes angen unrhyw gefnogaeth ar eich plentyn. Mae eu lles emosiynol yn hollbwysig i ni, ac rydym fel staff eisiau gwneud popeth y gallwn i sicrhau eu bod yn cael yr addysg a'r gofal gorau posib yn ystod y cyfnod yma.

John Hayes
Pennaeth

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

January 29th, 2021

Dear parent / guardian,

It is difficult to believe that we are nearly at the end of January and that we've completed almost 4 weeks of the spring term already. School is eerily quiet at the moment with only the children who attend the hub on site. We eagerly await the announcement that pupils will be allowed back to school when all is safe to do so. The latest Welsh Government announcement earlier today confirmed that the current lockdown is extended for another 3 weeks, but the very youngest primary aged pupils could begin to return to school after the February half term holiday but only if rates of coronavirus continue to fall.

Our weekly assemblies are placed on our Moodle site and pupils are encouraged to listen to the assemblies when they have some free time. Assemblies this week focused on two important themes. Monday's theme was Saint Dwynwen and it allowed us an opportunity to remind our pupils of the richness of our Welsh history, heritage and culture. On Wednesday, we struck a more sombre tone, commemorating the Holocaust. The theme for the global remembrance this year was 'Be the light in the darkness', which is a very apt message for us all during these dark days.

I had the opportunity this week to listen to the annual National Education Workforce Council lecture, which was presented by Professor Pasi Sahlberg from Finland. The theme of his lecture was the effect of the digital age and screen time in particular on the health and wellbeing of young people. He shared his research, conducted in Canada and Australia, which clearly showed a correlation between screen time and health and wellbeing amongst children and young people. Unsurprisingly, his international research painted a dire picture and confirmed what we all know to be the case, that spending too much time in front of a screen has a negative impact on health and mental Wellbeing: "High users show less curiosity, self-control and emotional stability."

Professor Sahlberg suggested that parents and teachers should help children to self-regulate their use of digital devices and to find a healthier balance in living with and without them. Our assembly on Monday will focus on these particular concerns as it is national mental wellbeing week for children and young people. Our distance learning strategy from the beginning of this current lockdown period has deliberately included independent learning opportunities and free time in KS3 and Year 10 pupils' timetables to avoid a full week of 'live' lessons, which is a small but important step in addressing this important issue. I will remind teachers that we need to avoid offering a full timetable of 'live' lessons to our Year 11 pupils who need time during the school day to complete tasks.

It is the national mental wellbeing week for children and young people next week and following the assembly on Monday which will address the screen time issue a range of tasks and techniques will be offered to support the emotional wellbeing of all our pupils during the lockdown period. Hopefully there will be a suitable activity for every one. Some members of staff will share their own experiences of coping with the lockdown period. In order to ensure that pupils and staff have a break from the screen next week, we will encourage staff and pupils to leave their devices on Friday afternoon and partake in a wellbeing activity such as physical education, reading a book or any other non-digital activity and to look after themselves.

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

We are keen to continue to evaluate our distance learning provision through listening to our pupils, teachers and parents about their teaching and learning experiences, and are prepared to modify our provision in order to protect the welfare of our pupils and staff. You will find a link below to a short questionnaire for parents. I would be delighted if you could spare a few minutes to complete the questionnaire by opening the hyperlink below. Many thanks.

https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=kWKY0wlzXkmkhF_27zTGWVATjLmACNhEpRzO2VJtcotUOTdYNlJTODcyTEFNVVBMQTNCNkIyUlBMMi4u

We will be introducing formal Personal Tutor time into next week's timetable for all pupils. It will be an opportunity for each Personal Tutor to meet the class and to conduct a pastoral and wellbeing check-in. The first session will be next Friday morning and the following week we will extend the provision to Monday and Friday mornings.

A copy of next week's timetable for KS3 and Year 10 has been sent to you as an attachment.

If there is no 'live' provision for a particular lesson, it will be due to a teacher being unwell or due to unforeseen circumstances, or as a result of a teacher staffing the hub. Every effort will be made to provide work on Teams or Moodle if it is not possible to provide a 'live' lesson.

Pwnc+ on the school's Moodle site is a repository for additional subject material for those pupils who manage to complete every class-based task and who are looking to enhance and develop their interest, understanding and awareness of particular subjects. Both learners and parents can log in using their usual Moodle / Edulink username and password. (Guest access is also available, without having to login).

If you are looking for additional educational material for your child, S4C are providing 80 hours of programmes uploaded to the educational Hwb platform, and BBC Bitesize programmes will be broadcast on S4C throughout the week. There will be content to support all ages up to A-level. Hwb is a Welsh Government funded website that has a large range of free educational resources and tools for teachers and pupils in Wales. Your child has a username and password for Hwb. Please contact the school office if your child has forgotten their log-in details.

It is essential that children have enough opportunities to engage in physical exercise during the week, especially as they are spending so much time at their desks and in front of a screen. The P.E. department are providing activities during timetabled lesson time, but young people need more than that during such a sedentary period. Please encourage your child to partake in some form of physical exercise either during the lunch break or after 15:00 as often as possible.

Welfare provision: In conjunction with our academic provision, we are also providing a comprehensive pastoral and wellbeing provision, which includes:

- Weekly e-mails to every year group from Personal Tutors / Heads of Year / Senior Leaders.
- Weekly assemblies or reflection sessions posted on the relevant Moodle site for every Key Stage.
- Regular Learner Voice sessions with KS4 and KS5 students.

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

- Targeted groups of pupils being invited to school by members of the pastoral and wellbeing teams for catch-up sessions.
- Daily attendance checks and phone calls to parents if we have a concern about pupil attendance.
- Our Family Support Officer calling at homes if we are unable to contact parents.
- Ensuring that no pupils are digitally deprived.
- Wellbeing lessons in Years 7 and 8 and wellbeing activities are being developed for other pupils.

Year 12: You should have received the arrangements in a letter from Mr James, Head of Sixth Form, regarding the parents evening arranged for Thursday, February 4th.

Please keep safe during these difficult times and remember to contact the school should you require any support that we may be able to offer you as a family. Your child's emotional wellbeing is of paramount importance to us and we will do everything in our means to offer the best possible academic and pastoral support for your child during this lockdown period.

John Hayes
Headteacher